# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 11 Rhagfyr 2017

Amser: 14.01 - 15.55

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4357

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Neil Hamilton AC<br>Vikki Howells AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Adam Price AC<br>Lee Waters AC |
| Tystion: | Mark Child, Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol y Bae Gorllewinol<br>Rachel Evans, Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol y Bae Gorllewinol |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Huw Vaughan Thomas - Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>Matthew Mortlock |
| Staff y Pwyllgor: | Huw Vaughan Thomas<br>Matthew Mortlock<br>Fay Bowen (Clerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc) |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

| | |
|---|---|
| | Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i’r cyfarfod.

1.2 2.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Mohammad Asghar AC. Ni chafwyd dirprwy ar ei ran.

## 2 Papur(au) i'w nodi:

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

- O ran llifogydd arfordirol, cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn am ddiweddariad ar ei hamserlen ar gyfer y Rhaglen Rheoli Perygl Arfordirol a rhoi gwybod i Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig am y pecyn cymorth arfordirol i gyd-fynd â'r Strategaeth newydd ar gyfer y Rhaglen Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol o safbwynt ad-alinio.
- O ran yr ohebiaeth rhwng y Pwyllgor a Llywodraeth Cymru ar arferion a gweithdrefnau gwaith, teimlai'r Aelodau fod yr ymateb yn gadarnhaol ond y byddai angen monitro agos i sicrhau bod ymatebion Llywodraeth Cymru i argymhellion y Pwyllgor yn rhoi esboniadau llawn yn gyson ynghylch pam y cafodd argymhelliad ei dderbyn ai peidio. Cytunodd y Cadeirydd i ymateb i'r Ysgrifennydd Parhaol gyda barn y Pwyllgor.

### 2.1 Rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru: Gwybodaeth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru (20 Tachwedd 2017)

### 2.2 Ymchwiliad i oruchwyliaeth reoleiddiol ar Gymdeithasau Tai: Gwybodaeth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru (21 Tachwedd 2017)

### 2.3 Arferion a gweithdrefnau gwaith y Pwyllgor: Gohebiaeth rhwng y Pwyllgor a Llywodraeth Cymru

### 2.4 Archwiliad o Gydberthynas Gytundebol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gydag RKC Associates Ltd a'i Berchennog: Gwybodaeth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru (24 Tachwedd 2017)

**2.5 Archwiliad o Gydberthynas Gytundebol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gydag RKC Associates Ltd a'i Berchennog: Gwybodaeth ychwanegol gan BIP Prifysgol Caerdydd a'r Fro (30 Tachwedd 2017)**

**2.6 Craffu ar Gyfrifon Blynyddol Cyfoeth Naturiol Cymru 2015-16: Gwybodaeth ychwanegol gan Gyfoeth Naturiol Cymru (29 Tachwedd 2017)**

## 3 Rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru: Sesiwn Dystiolaeth 4

3.1 Derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Cynghorydd Mark Child, Cadeirydd, Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Western Bay a Rachel Evans, Arweinydd Cefnogi Pobl, Awdurdod Cydlynu Dinas a Sir Abertawe fel rhan o'i ymchwiliad i Raglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru: Trafodwyd y dystiolaeth a ddaeth i law

5.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 6 Rhaglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif: Trafod y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru

6.1 Nododd yr Aelodau y diweddariad ysgrifenedig a chytunwyd i ymgymryd ag ymchwiliad yn ystod tymor yr haf 2018.

## 7 Caffael Cyhoeddus yng Nghymru: Adroddiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru:

7.1 Cafodd y Pwyllgor sesiwn friffio ar Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a gyhoeddwyd ar 30 Tachwedd. Roedd yr Aelodau eisoes wedi cytuno i ymgymryd ag ymchwiliad i Gaffael Cyhoeddus yn dilyn cyhoeddi ei adroddiad cynharach ar Gaffael Cyhoeddus - Adolygiad o'r Cefndir ar 23 Hydref.

7.2 Nododd yr aelodau y bydd sesiynau tystiolaeth yn cael eu trefnu ar gyfer tymor y gwanwyn 2018.

## 8 Yr Heriau Llywodraethu yn sgil gwasanaethau anuniongyrchol a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru: Diweddariad Llafar gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

8.1 Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol ddiweddariad llafar ar ei bapur trafod a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2017 ac a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn ystod ei gyfarfod ar 6 Mawrth 2017.

8.2 Cytunodd yr Aelodau y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Parhaol yn ceisio diweddariad ar y cynnydd a wnaed o safbwynt y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a chwmnïau hyd braich.